**Llywodraeth Cymru.**

**Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb.**

**Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol.**

## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

Trosolwg cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Methodoleg

Cwmpas y gwaith

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad agored

Demograffeg

Cwestiwn 1

Cwestiwn 2

Cwestiwn 3

Cwestiwn 4

Cwestiwn 5

Cwestiwn 6

Cwestiwn 7

Casgliad

## Cyflwyniad.

Rhwng 7 Medi a 30 Tachwedd 2020, gofynnodd Llywodraeth Cymru am safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch swyddogaethau arfaethedig Awdurdod Iechyd Arbennig newydd o'r enw Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn disgrifio pam mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y newid; y swyddogaethau arfaethedig sy'n cael eu cyflawni gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar hyn o bryd ac a fydd yn cael eu datblygu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru; a sut gall y swyddogaethau hyn hwyluso datblygiad aeddfedrwydd digidol ar draws y sector iechyd a gofal yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar y meysydd canlynol a gofynnwyd i randdeiliaid gyflwyno eu sylwadau drwy ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post.

- Swyddogaethau arfaethedig Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- A yw un neu fwy o swyddogaethau arfaethedig Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gorgyffwrdd â swyddogaeth sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan sefydliad gwahanol yng Nghymru (nid Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru).
- Swyddogaethau ychwanegol y dylid eu cynnwys o fewn cyfrifoldeb Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Unrhyw effeithiau y gallai'r swyddogaethau arfaethedig eu cael ar y Gymraeg.

## Trosolwg cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafwyd cyfanswm o 78 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd rhai o'r ymatebion ysgrifenedig yn adlewyrchu safbwyntiau cyfunol sefydliadau yn GIG Cymru, a dangosir y rhain gyda dadansoddiad yn y tabl.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn tueddu i ennyn sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn gefnogol i'r cynigion ar y cyfan. Roedd natur agored y ffurflen ymgynghori'n golygu bod llawer o ymatebwyr wedi darparu gwybodaeth ychwanegol, cafeatau ychwanegol neu godi materion i'w hystyried ymhellach. Roedd y rhain yn amrywiol ac, mewn sawl achos, yn benodol i'r ymatebydd a/neu'r sefydliad roeddent yn ei gynrychioli.

Roedd rhai materion trawsbynciol yn cynnwys yr angen i integreiddio unrhyw newidiadau yng nghyd-destun y tirlun polisi presennol ac o ran strwythurau sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â'r angen i rannu arferion gorau a dysgu o brofiad cyrff a rhaglenni presennol, a'i ddefnyddio.

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar swyddogaethau arfaethedig Iechyd a Gofal Digidol Cymru, fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bryderon gweithredol ynghylch y sefydliad newydd nad ydynt yn cyfateb yn uniongyrchol i swyddogaethau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Lle mae hyn yn berthnasol, bydd yr ymateb hwn yn tynnu sylw at y pryderon

er mwyn bod yn gyflawn, gan ddeall y byddant yn cael eu hystyried gan fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ôl i'r aelodau gael eu penodi.

## Methodoleg.

Roedd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys 7 cwestiwn penagored am wahanol agweddau ar y cynigion ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol, ac roedd yn cynnwys cwestiwn 'sylwadau pellach' ar y diwedd i nodi unrhyw ystyriaethau ychwanegol gan ymatebwyr.

Roedd modd llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolyn ac ar ran sefydliadau. Cafwyd cyfanswm o 351 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan 78 o ymatebwyr.

## Cwmpas y gwaith.

Mae'r adroddiad wedi'i drefnu yn ôl y cwestiynau yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i grynhoi o ran:

- Y themâu allweddol a gododd o'r ymatebion.
- Sylwadau gweithredol gan bob ymatebydd.

Gan gadw hyd yr adroddiad mewn golwg, nid yw pob thema wedi cael ei thrafod yn y crynodeb.

Nid nifer yr ymatebion yw'r unig ffactor i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ei ystyried. Mae'n bwysig nodi na ellir defnyddio amlder themâu allweddol i ddehongli'r cydbwysedd barn yn yr un modd ag y gallai cwestiwn caeedig wneud hynny. Dylid nodi hefyd, lle mae cyfran o'r ymatebwyr wedi gwneud sylwadau i gefnogi rhannau penodol o gynnig, nad yw hynny'n golygu bod y rheini nad ydynt wedi

Roedd cyflwyniadau'n tueddu i fod yn hir, yn dechnegol iawn weithiau, ac yn aml yn codi pwyntiau a oedd yn unigryw neu'n benodol iawn. Gan mai dim ond 351 o gyflwyniadau a gafwyd, caiff pwyntiau a godwyd mewn cyflwyniadau unigol eu trafod yn y sylwebaeth o bryd i'w gilydd, naill ai er mwyn bod yn gyflawn neu oherwydd eu bod wedi codi pynciau nad ydynt i'w gweld yn unman arall yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.


## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad agored.

Gan fod y cwestiynau ar y ffurflen ymateb yn benagored, roedd llawer o'r ymatebwyr yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn unigryw i'w hymateb a/neu nad oedd modd ei chodio'n thematig, fel gwybodaeth gefndirol am eu harbenigedd hwy neu am arbenigedd sefydliad arall.

Nid yw pob sefydliad wedi rhoi eu henwau, felly mae nifer bach o'r ymatebwyr hyn o gefndir anhysbys.

## Demograffeg.

### Tabl 1: Ymateb fesul sector



## Cwestiwn 1.

*Byddem yn hoffi clywed eich barn am swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol.*

**Crynodeb.**

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r model yn gadarnhaol neu'n gefnogol i'r cynigion, gyda llawer o ymatebwyr yn datgan yn glir eu bod yn cytuno â natur gyffredinol y cynigion. Roedd rhai o'r sylwadau hyn yn tynnu sylw at agweddau penodol ar y cynnig yr oeddent yn cytuno â hwy, gan gynnwys pwysigrwydd sicrhau'r gallu i ymyrryd a chydlynu ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, roedd ystyriaethau'n cael eu cynnwys fel cafeat i lawer o'r sylwadau, ac roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried y rhain. Yn naturiol, roedd rhai ymatebion yn canolbwyntio ar ystyriaethau sy'n ymwneud â pholisi ar lefel genedlaethol, tra oedd eraill yn rhoi sylwadau ac awgrymiadau ynghylch darparu'r Awdurdod Iechyd Arbennig. Ychydig a ddywedodd eu bod yn anghytuno'n llwyr â'r cynigion, gyda dim ond cyfran fach yn dweud eu bod yn erbyn cydlynu ar lefel genedlaethol.

**Roedd y sylwadau ar y swyddogaethau'n cynnwys:**

- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru barhau i wneud cynnydd o ran uchelgeisiau *Cymru Iachach*, gan gynnwys sbarduno'r gwaith o ddarparu pensaernïaeth ddigidol genedlaethol drwy ddefnyddio dull seiliedig ar safonau sy'n rhoi'r rhyddid i Sefydliadau GIG Cymru ddewis systemau adrannol. Dylid cefnogi hyn drwy ddatblygu strategaeth Ddigidol genedlaethol integredig ar gyfer iechyd a gofal, sy'n darparu fframwaith cyffredin lle gall Iechyd a Gofal Digidol Cymru gefnogi'r gallu i ryngweithredu, seilwaith, pensaernïaeth a gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg.
- Canolbwyntio mwy ar gefnogi datblygiad proffesiynol swyddogion gweithredol byrddau iechyd ym maes Digidol i gefnogi rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran cyflawni a sicrhau bod cleifion a staff yn meddu ar y sgiliau digidol i alluogi trawsnewidiad sy'n gysylltiedig â strategaethau Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant digidol.
- Darparu fframwaith cyfreithiol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn drydydd parti dibynadwy, bod â rolau rheoli a phrosesu data, a darparu mynediad amser real at ddata ar draws darparwyr iechyd a gofal i gefnogi gwelliannau i systemau a gwella gofal i ddinasyddion.
- Cyfuno'r berthynas rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, y Prif Swyddog Digidol ar gyfer iechyd a gofal, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r sector preifat i fabwysiadu safonau sylfaenol ac egluro'r rôl genedlaethol y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei chwarae o ran rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG ynghylch swyddogaethau seiberddiogelwch.
- Sicrhau bod gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyfrifoldeb clir i sicrhau bod unrhyw wasanaethau iechyd a gofal digidol yn diwallu anghenion a gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb a'u bod yn gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru o dan ei Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy.

- Cydnabod yr angen am ragor o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu GIG Cymru sy'n seiliedig ar ddata, a hynny o ganlyniad i ffurfio Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Roedd cefnogaeth gref i sefydlu swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol, gydag ymatebwyr yn defnyddio enghreifftiau o bandemig COVID-19 lle bu'n rhaid datblygu dull gweithredu cydlynol ar draws GIG Cymru gyfan.
- Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gydweithio â sefydliadau eraill ledled Cymru, gan gynnwys y GIG, gofal cymdeithasol, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol i sicrhau cysondeb o ran darpariaeth ddigidol, lle bo hynny'n briodol.
- Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod rhai cleifion yng Nghymru yn cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac yn awgrymu bod y safonau a fabwysiadwyd yn GIG Cymru yn galluogi pobl i ryngweithredu ar draws ffiniau er mwyn hwyluso rhannu data.
- Argymhellodd un ymatebydd hefyd y dylai'r dull gweithredu a nodir yn yr ymgynghoriad ar gyfer gwybodaeth a safonau technegol gael ei gymhwyso i seiberddiogelwch a seilwaith i sicrhau bod y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny a'r sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth wedi'u gwahanu'n glir.

**Roedd y sylwadau gweithredol yn cynnwys:**

- Pwysleisio'r angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid i greu sylfaen ar gyfer dulliau partneriaeth sy'n datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol, cydweithrediad, cyngor a chymorth.
- Sicrhau bod gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yr adnoddau medrus angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau a darparu gwasanaethau i ddylunio, datblygu, profi a chefnogi ceisiadau ar lefel genedlaethol a lleol.
- Bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i weithredu a darparu rhaglen ddatblygu effeithiol ar gyfer staff digidol ledled Cymru.
- Nododd mudiad allanol fod gan y sector gwirfoddol fynediad at ddata gwerthfawr. Mae'n yn teimlo'n gryf y dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ystyried defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau, yn ogystal â'r data y mae'n eu darparu fel rhan o'i broses adrodd. Awgrymodd y mudiad y dylai'r sector gwirfoddol fod yn rhan o'r broses o gynllunio trafodaethau i gefnogi hyn.
- Dylai'r sefydliad newydd ganolbwyntio ar archwilio technolegau newydd – Deallusrwydd Artiffisial, Dysgu Peirianyddol a gwyddor data uwch – a'r rôl hanfodol y bydd hyn yn ei chwarae o ran sicrhau bod y modd y cyflwynir gwasanaethau a chanlyniadau ym maes iechyd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol.

- Dim ond elfen fach o newid yw technoleg a dim ond os bydd y busnes yn newid y bydd y manteision yn cael eu gwireddu'n llawn. Rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti i gefnogi newid busnes.

**Casgliad:**

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r swyddogaethau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori ar y cyfan, gydag ychydig o sylwadau negyddol neu anghefnogol. Bydd yr holl ymatebion a roddwyd yn cael eu hystyried ymhellach gan Lywodraeth Cymru a'u defnyddio i lywio cyfeiriad strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ôl iddo gael ei sefydlu.

## Cwestiwn 2.

*Byddem yn hoffi clywed eich barn am strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol.*

**Crynodeb:**

Ar ôl cael eu holi i ddechrau am swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol.

Yn gyffredinol, roedd y sylwadau'n cefnogi strwythur arfaethedig y bwrdd, gyda'r ymatebwyr yn croesawu strwythurau llywodraethu sy'n gydradd â sefydliadau eraill GIG Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r strwythur, gan awgrymu y bydd y dull arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau, yn ogystal â darparu tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd ymatebwyr yn tueddu i deimlo y bydd ymgysylltu â staff rheng flaen yn barhaus ac yn gyson yn elfen hanfodol o lwyddiant y corff newydd ac yn arwain at drawsnewid digidol.

**Roedd y sylwadau ar strwythur arfaethedig y bwrdd yn cynnwys:**

- Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am arweinyddiaeth ar lefel weithredol i ddarparu llwyfannau, gwasanaethau a systemau digidol ac i yrru'r weledigaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei blaen. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai llinellau atebolrwydd a strwythurau llywodraethu clir yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a'u lliniaru'n briodol.
- Roedd yr ymatebion yn cydnabod rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal digidol cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru a defnyddio'r safonau a bennwyd gan y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal. Bydd y Prif Swyddog Digidol yn chwarae rôl amlwg o ran atebolrwydd ac arweinyddiaeth broffesiynol.
- Roedd yr ymatebion yn cefnogi mwy o dryloywder ynghylch y broses gwneud penderfyniadau er mwyn rhoi sicrwydd a hyder i'r holl randdeiliaid wrth symud ymlaen.

**Roedd y sylwadau gweithredol yn cynnwys:**

- Roedd ymatebwyr yn cydnabod y bydd y bwrdd yn atebol i Lywodraeth Cymru mewn ffordd debyg i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill, gan gysylltu'n gryf â'r adolygiad llywodraethu diweddar a darparu dull llywodraethu unedig. Bydd ymgysylltu cyson a pharhaus â staff rheng flaen yn elfen hanfodol o lwyddiant y corff newydd o ran sicrhau trawsnewid digidol. Dim ond pan roddir yr un cydraddoldeb i arbenigedd clinigol a gwybodeg y gellir gwarantu llwyddiant.

- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynnal gwaith ymchwil/gwerthuso ar draws holl feysydd ei gylch gwaith, ar gais Llywodraeth Cymru, gan roi pobl a chleifion wrth galon y gwaith hwn.
- Mae creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfle i gryfhau darpariaeth gwasanaethau digidol ar sail Cymru gyfan a bydd yn meithrin cydweithrediad rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydliadau eraill GIG Cymru.
- Sicrhau bod gan y bwrdd ystod eang o brofiad a, lle nad yw arbenigeddau iechyd yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol, bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud i sicrhau bod eu mewnbwn a'u hystyriaethau gwerthfawr yn cael eu clywed. Er enghraifft, os bydd y sefydliad yn ymgymryd ag unrhyw gylch gwaith ar gyfer data gofal cymdeithasol, rhaid iddo sicrhau bod llywodraeth leol a'r sector gofal cymdeithasol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar y lefelau uchaf yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Bydd sefydlu partner i holl gyrff eraill GIG Cymru yn sicrhau amlygrwydd priodol i dechnoleg ddigidol yn y system ar adeg pan fydd datblygiadau technolegol yn sicr o chwarae mwy o ran mewn cymdeithas yn gyffredinol.
- I sicrhau bod y corff newydd yn ddarparwr ac yn gomisiynydd gwasanaethau gwybodeg ar sail gyfartal, lle bo hynny'n berthnasol, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddisgrifio hyn yn glir ac yn ddiamwys.

**Casgliad:**

Unwaith eto, roedd yr ymatebion i strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gefnogol ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn teimlo y bydd creu'r sefydliad yn darparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran darparu gwasanaethau digidol ar draws y maes Iechyd a Gofal.

Cafwyd argymhellion penodol gan sawl ymatebydd ynghylch cefndir, profiad, cymwyseddau a chymwysterau aelodau'r Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch recriwtio ar gyfer yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ac mae'n chwilio am ystod eang o brofiad a sgiliau i gefnogi'r bwrdd. Ynghyd â Chadeirydd Dros Dro a Phrif Weithredwr Iechyd a Gofal Digidol Cymru, bydd yr aelodau annibynnol, pan gânt eu penodi, yn gyfrifol am benodi swyddogion i'r swyddi bwrdd sy'n weddill ond heb eu nodi yn yr ymgynghoriad. Wrth benodi, bydd bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystyried y sgiliau, y cyngor a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn i'r sefydliad gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol yn unol â'i reolau sefydlog a'i reoliadau aelodaeth.

## Cwestiwn 3.

*Os ydych chi'n credu bod un neu fwy o swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol yn gorgyffwrdd â swyddogaeth sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan sefydliad gwahanol yng Nghymru (nad yw'n NWIS), byddem yn hoffi clywed eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn ar y materion hynny.*

**Crynodeb:**

Roedd yr ymatebion yn amlygu bod llawer o sefydliadau'n cyfrannu at y dirwedd ddigidol yng Nghymru, ac y bydd rhywfaint o orgyffwrdd naturiol rhwng systemau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn tynnu sylw at yr angen i liniaru'r risg bosibl o ddyblygu trefniadau sy'n bodoli eisoes.

Cafodd ansawdd data gwell a chadw at y safonau a bennir gan y Prif Swyddog Digidol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru eu cydnabod fel elfennau hanfodol o lwyddiant y nodau polisi allweddol yn *Cymru Iachach*, fel y bensaernïaeth ddigidol genedlaethol a'r adnodd data cenedlaethol. Roedd yr ymatebion yn cydnabod y byddai hyn yn hwyluso gwell dealltwriaeth o iechyd, cyfleoedd ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi, yn ogystal â gallu cynyddol i gyhoeddi ystadegau a setiau data y gall Llywodraeth Cymru a sefydliadau iechyd a gofal eraill yng Nghymru eu defnyddio.

**Roedd y sylwadau ar y swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd yn cynnwys:**

- Pwysleisio y dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni'r weledigaeth ddigidol a amlinellir yn *Cymru Iachach* ac y dylid adolygu swyddogaethau y tu allan i'r weledigaeth graidd honno.
- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru adeiladu ar y gwaith a wneir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod systemau cenedlaethol yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u defnyddio yn unol â safonau ansawdd a rheoleiddio priodol a pherthnasol.
- Dywedodd un ymatebydd fod cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng dau o'r meysydd swyddogaethol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, sef "Rheoli Gwybodaeth" a "Gwasanaethau Adrodd".
- Sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynrychioli'n llawn yr holl awdurdodau statudol a'r asiantaethau iechyd a gofal eraill yng Nghymru, gan ddarparu un drws ffrynt ar gyfer y rheini sy'n dymuno gweithio gyda'r data a'r sefydliadau dan sylw.
- Roedd nifer o'r sefydliadau a ymatebodd yn teimlo'n gadarnhaol am y potensial y bydd creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei ddarparu o ran perthnasoedd agos a chydweithio.

**Roedd y sylwadau gweithredol yn cynnwys:**

- Un awgrym oedd bod timau sefydliadau lleol yn cael eu lleoli’n ddaearyddol ar draws GIG Cymru er mwyn gallu darparu gwasanaeth a chymorth amserol lle mae angen ymweliadau safle.
- Roedd un o'r sylwadau’n tynnu sylw at y pwyslais ar reoli ansawdd, diogelwch cleifion a chydymffurfiaeth reoleiddiol yn y ddogfen ymgynghori a bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i rolau a chyfrifoldebau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn y meysydd hynny.
- Er bod modd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu a chynnal set o safonau a pholisïau mewn partneriaeth â’r Prif Swyddog Digidol a Llywodraeth Cymru, dylai fod yn gyfrifoldeb ar sefydliadau statudol eraill yng Nghymru i gynnal eu cydymffurfiaeth eu hunain â’r rheoliadau a’r trefniadau rheoli ansawdd o hyd.
- Mae gwella ansawdd data a glynu wrth y safonau a bennir gan y Prif Swyddog Digidol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhan annatod o lwyddiant nodau polisi allweddol *Cymru Iachach*, fel y bensaernïaeth ddigidol genedlaethol a’r adnodd data cenedlaethol. Yn eu tro, dylai’r rhain hwyluso gwell dealltwriaeth o iechyd, cyfleoedd ar gyfer ymchwil, datblygu, arloesi a gallu cynyddol i gyhoeddi ystadegau a setiau data y gall Llywodraeth Cymru, y byd academaidd a sefydliadau iechyd a gofal eraill yng Nghymru eu defnyddio.

**Casgliad:**

Er bod rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at feysydd unigol o’u busnes eu hunain neu fusnes sefydliadau eraill ledled Cymru lle gellid cael “gorgyffwrdd” neu “bwyntiau cyffwrdd” o ran y swyddogaethau a ddisgrifir, roeddent hefyd yn cydnabod y cyfle i gydweithio ar draws sefydliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i annog arloesedd lleol drwy ddulliau cydweithredol y gellir eu datblygu i sbarduno cyflawni cenedlaethol.

Rhagwelir y bydd strwythurau llywodraethu a swyddogaethau’r sefydliad newydd yn hwyluso gallu Iechyd a Gofal Digidol Cymru i greu partneriaethau a chydweithio â sefydliadau ar draws y system, yn ogystal â darparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth a data mewn ffordd ddiogel a chadarn drwy drefniadau llywodraethu clir a chadarn.

## Cwestiwn 4.

*Byddem yn hoffi clywed a ydych chi'n credu y dylid cynnwys swyddogaeth arall neu set arall o swyddogaethau o fewn cyfrifoldeb yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol ac i chi nodi eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth ac ymchwil i gefnogi eich barn.*

**Crynodeb:**

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol ac yn ychwanegu safbwyntiau ar draws y system. Roedd sylwadau hyn yn trafod canlyniadau posibl sy'n deillio o fylchau yn y ddarpariaeth swyddogaethau, ond hefyd yn nodi y gellid colli arbenigedd ymlaen llaw oherwydd diffyg eglurder ynghylch trefniadau pontio.

Roedd yr ymatebion yn cydnabod ac yn croesawu gallu Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gael sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth am breswylwyr yng Nghymru. Roedd y sylwadau a gafwyd yn awgrymu bod ymatebwyr yn teimlo bod data yn hanfodol i gyflawni trawsnewid digidol yn GIG Cymru ac y bydd yn darparu blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer cyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru fel y nodir yn *Cymru Iachach*, gan gynnwys adnodd data cenedlaethol a phensaernïaeth ddigidol genedlaethol.

Nododd ymatebwyr fod Gofal Cymdeithasol yn gyfrannwr sylfaenol at yr economi iechyd a gofal a bod rhaid iddo gael yr un lefel o flaenoriaeth, gan sicrhau bod pob dinesydd yn cael y lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen arnynt yn y lle o'u dewis.

Cafodd y gallu i ryngweithredu rhwng systemau; sut mae data a gwybodaeth yn cael eu casglu, eu prosesu a'u rhannu rhwng sefydliadau iechyd a gofal; llywodraethiant gwybodaeth; a phwysigrwydd GDPR eu cydnabod fel swyddogaethau sylfaenol y sefydliad newydd er mwyn darparu adroddiadau i helpu i wneud penderfyniadau a gweithredu safonau data ar draws y system, a rhannu arferion gorau.

**Roedd y sylwadau ar y swyddogaethau'n cynnwys:**

- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru sicrhau bod modd cofnodi profiad cleifion yn gyson mewn ffordd ddigidol sy'n cydymffurfio â GDPR, gan wneud y defnydd gorau o ddyfeisiau meddygol a thechnoleg mae modd ei gwisgo, beth bynnag fo'r ffiniau sefydliadol a/neu ranbarthol.
- Sicrhau y bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig digidol yn rheoli'r prosesau llywodraethu a chymeradwyo ar gyfer comisiynu gwasanaethau digidol mewn unrhyw sefydliad yn y GIG. Byddai hyn yn sicrhau bod cynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu caffael neu eu datblygu gan y gwahanol sefydliadau yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol, yn bodloni'r safonau priodol o ran diogelwch, GDPR a'r gallu i ryngweithredu, ac yn cyd-fynd yn strategol â'r amcanion cenedlaethol.
- Manteisio ar y cyfle i sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatrys problemau cyfredol o ran llywodraethu gwybodaeth a rhannu data ar draws y system
- Tynnodd un sefydliad allanol sylw at y risg y gallai'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol roi mwy o bwyslais ar iechyd yn hytrach na gofal

cymdeithasol. Roedd yr ymateb yn cydnabod bod gofal cymdeithasol yn gyfrannwr sylfaenol at yr economi iechyd a gofal a bod rhaid iddo gael yr un lefel o flaenoriaeth, gan sicrhau bod pob dinesydd yn cael y lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen arnynt yn y lle o'u dewis. I gydnabod y risgiau hyn, ei awgrym fyddai cynnwys gofal cymdeithasol fel swyddogaeth ar wahân i'r Awdurdod.

- Fel y prif arweinydd ar faterion sy'n ymwneud â seiberddiogelwch a'r cydlynydd polisi a strategaeth seiberddiogelwch gyda gwledydd eraill y DU a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd fod yn gyfrifol am gydlynu'r dull seiberddiogelwch gorau ar gyfer cwmnïau yn y sector preifat sydd â chontractau i ddarparu gwasanaethau digidol i GIG Cymru.
- Nododd un sefydliad allanol ei fod yn awyddus iawn i sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio tuag at gysoni safonau ac egwyddorion gyda gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.
- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn gyfrifol am hyrwyddo gweithgareddau i gefnogi cynhwysiant digidol i holl ddefnyddwyr a staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill y GIG a gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill, gan gynnwys Cymunedau Digidol Cymru a'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal.
- Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru weithio gyda rhanddeiliaid priodol mewn modd ystwyth, gan eu cynnwys yn y gwaith darganfod a dylunio iteraidd.

**Roedd y sylwadau gweithredol yn cynnwys:**

- Roedd yr ymatebion yn gymysg ynghylch i ba raddau y dylid canoli systemau a gwasanaethau digidol yn GIG Cymru; roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid cael llai o amrywiaeth o systemau digidol, tra oedd eraill yn dadlau o blaid pensaernïaeth ganolog a fyddai'n cefnogi'r gallu i ryngweithredu er mwyn defnyddio atebion llai ar draws y sector iechyd a gofal.
- Soniodd un ymatebydd am y risg bosibl o leihau atebolrwydd pe bai Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dal 'rolau deuol' fel awdurdod safonau a darparwr gwasanaeth, ac awgrymodd y dylai'r rhain gael eu gwahanu'n glir dros amser er mwyn sicrhau tryloywder o ran llywodraethu ac atebolrwydd.
- Dywedodd ymatebydd allanol fod y pandemig diweddar wedi dangos bod potensial enfawr i gynyddu lefel y cyfathrebu sy'n digwydd rhwng cleifion a'r system gofal iechyd drwy ddulliau digidol, gan ddarparu mynediad cyflymach at wasanaethau i gleifion, a helpu effeithlonrwydd o fewn y sefydliad.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylid creu uned diogelu gwybodaeth ar gyfer GIG Cymru, o ystyried sensitifrwydd data meddygol defnyddwyr.

**Casgliad:**

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol yn cadarnhau'r swyddogaethau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y gofyniad bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael sail gyfreithiol briodol ar gyfer casglu, prosesu a lledaenu data, wedi'i hategu gan fframwaith priodol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. Roedd llawer o'r farn bod hyn yn allweddol er mwyn galluogi eu rhaglenni

allweddol i gefnogi'r agenda trawsnewid digidol, ac mae'r gofyniad hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach gan Lywodraeth Cymru drwy bolisi a deddfwriaeth.

Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu â defnyddwyr, dinasyddion a chleifion er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio a darparu ei wasanaethau. Mae'r uchelgais hwn eisoes wedi cael ei nodi gan Lywodraeth Cymru yn *Cymru Iachach* a bydd hyn yn parhau drwy sefydlu a gweithredu'r sefydliad.

Bydd penodi Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal gyda chyfrifoldeb dros osod safonau ar draws y sector yn sicrhau bod unrhyw risgiau posibl o ran atebolrwydd ar gyfer y corff newydd yn cael eu lleihau.

Integreiddio, y gallu i ryngweithredu a glynu wrth safonau cenedlaethol oedd themâu allweddol yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Wrth ddatblygu'r swyddogaethau manwl ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r swyddogaeth hon i sicrhau bod y sefydliad newydd yn gallu cyflawni nod polisi o gael pensaernïaeth ddigidol genedlaethol.

## Cwestiwn 5.

*Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?*

## Cwestiwn 6.

*Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

**Crynodeb.**

Roedd cwestiynau 5 a 6 yn ymwneud ag effaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yr ymatebion yn cydnabod y gall Iechyd a Gofal Digidol Cymru chwarae rôl allweddol o ran cefnogi cleifion yng Nghymru i ddefnyddio gwasanaethau digidol yn yr iaith o'u dewis. Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at y cyfle i systemau digidol gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion sy'n siarad Cymraeg.

Cafodd trawsnewid Iechyd Digidol ei gydnabod yn glir fel cyfle i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau bob dydd y GIG. Roedd cefnogaeth gref i ddigideiddio prosesau er mwyn sicrhau bod pob claf yng Nghymru yn gallu mynd drwy opsiynau triniaeth yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio, a bod staff GIG Cymru yn gallu cael mynediad at adnoddau yn y gweithle sydd wedi'u cyfieithu'n gadarn ac yn caniatáu i fusnes y GIG gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Roedd yr argymhellion ynghylch y Gymraeg yn cynnwys:**

- Roedd un ymateb yn pwysleisio y dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a rhaglenni dwyieithog. Byddai hyn yn rhoi cyfle i staff a dinasyddion adolygu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddai'n hwyluso'r broses o gyfathrebu gwybodaeth iechyd rhwng staff a'r claf yn Gymraeg.
- Awgrymodd un ymateb y gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn gyfrifol am sefydlu fframwaith llywodraethu i helpu a chefnogi sefydliadau i bennu'r gofynion iaith Gymraeg ar gyfer gwasanaethau digidol.
- Awgrymodd ymatebion y dylai un o'r aelodau nad ydynt yn swyddogion fod â rôl sicrwydd benodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg, i wneud yn siŵr bod unrhyw ddatblygiadau neu brosesau caffael y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu harwain yn sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn elfen allweddol a'u bod wedi'u gwreiddio yn niwylliant y sefydliad newydd.

- Pwysleisiodd sefydliad allanol ei fod yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru ac y dylai'r Gymraeg barhau i fod yn rhan annatod o atebion digidol. Dylai'r Gymraeg fod yn baramedr diofyn mewn unrhyw waith dylunio a datblygu systemau, yn ogystal â'r opsiwn i newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhwydd.
- Mae trawsnewid Iechyd Digidol gyfle gwych i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn swyddogaethau bob dydd y GIG. Drwy ddigideiddio prosesau, gallwn sicrhau bod yr holl gleifion yng Nghymru yn gallu rhoi caniatâd ac yn gallu mynd drwy eu dewisiadau triniaeth yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio.

**Roedd y sylwadau gweithredol yn cynnwys:**

- Byddai'n bwysig gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg o'r dechrau er mwyn deall y mesurau sydd angen bod yn eu lle ar gyfer hwyluso'r defnydd o'r iaith mewn gwasanaethau digidol cenedlaethol, gan gofio bod angen cryn gefnogaeth ar y Byrddau Iechyd gan wasanaeth digidol cenedlaethol cynhwysfawr i wneud hyn ar draws eu holl weithgareddau, gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd.
- Gallai rhedeg system ddeuol neu amlieithog gael ei ddefnyddio fel sail resymegol i wneud y defnydd gorau posibl o eirfa safonedig a data meintiol (ee, testun rhydd, codau clinigol mwyafsymaidd ar gyfer symptomau, diagnosis ac ymyriadau). Byddai hyn yn golygu manteision fel llai o storio data, a bod pobl yn gallu darllen yn yr iaith o'u dewis.
- Rhaid i'r gwaith llunio iaith fod yn gwbl ddwyieithog er mwyn i bob parti ddeall y cynnwys yn llawn. Mae dadl debyg hefyd dros anghenion ieithyddol lleiafrifoedd ethnig preswyl.

**Casgliad:**

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfle i wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal digidol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd â'r ymatebion mewn meysydd eraill, roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio a phartneriaeth wrth ddylunio a datblygu systemau a gwasanaethau, gyda ffocws penodol ar ddiwallu anghenion ieithyddol staff a chleifion Cymraeg eu hiaith.

## Cwestiwn 7.

*Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:*

**Crynodeb.**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion ychwanegol nad oeddent, yn eu barn hwy, yn cael sylw yn y papur ymgynghori. Oherwydd nifer yr ymatebion a ddaeth i law, darparwyd nifer o sylwadau ac arsylwadau amrywiol ac eang. Mae'r sylwadau wedi cael eu cyflwyno'n thematig yn yr adran hon.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ac yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried dysgu o'r gorffennol a defnyddio hynny fel sail ar gyfer datblygu strategaeth ddigidol yn y dyfodol. Mae'n ymddangos o'r ymateb y bydd creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn golygu bod uchelgeisiau polisi Iechyd a Gofal ar sail Gwybodaeth a *Cymru Iachach* yn gallu cael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae nifer o heriau a rhwystrau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Sector Iechyd a Gofal yng Nghymru eu hwynebu drwy drawsnewid digidol.

**Themâu'r Sylwadau**:

<u>Gwasanaethau Cwmwl</u>

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu symud at ddull gweithredu "cwmwl yn gyntaf" ar gyfer darparu llwyfannau, systemau a gwasanaethau digidol. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr nifer o heriau o ran cyflawni'r nod hwn hefyd.

- Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch diogelwch a chyfrinachedd datrysiadau yn y cwmwl, gan awgrymu bod risgiau posibl, yn enwedig gyda darparwyr cwmwl trydydd parti.
- Dywedodd un ymatebydd y byddai goblygiadau ariannol dull cwmwl yn gyntaf yn galw am adolygu trefniadau cyllido gan y byddai hyn yn debygol o olygu symud oddi wrth osodiadau canolfan ddata, a fyddai'n golygu bod angen cyllid cyfalaf ar gyfer modelau seiliedig ar danysgrifiadau lle mae angen buddsoddiadau refeniw parhaus.
- Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd y gallai newid y systemau presennol i fodelau cwmwl effeithio ar wasanaethau gweithredol ac y dylid ystyried hyn wrth gynllunio gweithgareddau mudo.

<u>Cydweithio</u>

Thema allweddol ar gyfer mwyafrif helaeth yr ymatebion oedd y dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gydweithio â'i amrywiol randdeiliaid a sefydliadau partner ar draws y sector iechyd a gofal.

- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru weithio gyda thimau amlddisgyblaethol a grwpiau cleifion er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau.

- Fe wnaeth y sefydliadau a ymatebodd hefyd sôn am eu perthynas bresennol â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ac awgrymu y byddai creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfle i ddatblygu a gwella cysylltiadau a phartneriaethau strategol ymhellach.
- Nododd nifer o'r sefydliadau a ymatebodd bwysigrwydd y berthynas rhwng AaGIC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod y sector iechyd a gofal yn cael ei rymuso i ddatblygu sgiliau digidol a gwreiddio diwylliant cadarn o arloesi digidol ar draws y gweithlu.
- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r bwriad yn y ddogfen ymgynghori i Iechyd a Gofal Digidol Cymru weithio'n ystwyth ochr yn ochr â rhanddeiliaid.
- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd y sector gwirfoddol o ran darparu gofal ledled Cymru ac awgrymu y dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynnwys cynrychiolwyr o'r sector wrth gynllunio gwasanaethau.
- Nododd ymatebwyr hefyd feysydd ar gyfer cydweithio a dysgu o arferion gorau y tu allan i Gymru, gan awgrymu y gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynnal gweithdai i randdeiliaid er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaethau am newidiadau i safonau cenedlaethol a rhoi cyfle iddynt ddysgu am effeithiau posibl defnyddwyr gwasanaeth ar wasanaethau.

Data

Cafwyd sylwadau gan nifer fawr o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ynghylch defnyddio data yng Nghymru. Roeddent yn gefnogol i'r dull a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen ymgynghori ar y cyfan, ond roeddent yn codi nifer o feysydd i'w hystyried.

- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu llifau data effeithiol ar gyfer casglu a dosbarthu data iechyd a gofal i gefnogi gwybodaeth fusnes, i lunio polisïau ac i ddylunio gwasanaethau seiliedig ar werthoedd, yn ogystal â darparu data amser real i lywio penderfyniadau clinigol.
- Roedd sawl ymateb o blaid creu sail gyfreithiol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gasglu, prosesu, dadansoddi a dosbarthu data ar ran GIG Cymru.
- Roedd yr ymatebion hefyd yn codi pryderon ynghylch mynediad at ddata cleifion ac yn ceisio sicrhau y byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei chefnogi gan brosesau llywodraethu cadarn.
- Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn cydnabod pwysigrwydd data gofal iechyd o ran cefnogi dulliau trawsnewid digidol arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cydnabod rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran darparu hyn.
- Awgrymwyd hefyd y gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru helpu GIG Cymru i ddarparu data i gefnogi ymchwil ac arloesi, a mabwysiadu arferion gorau a dysgu o wledydd eraill.
- Tynnodd un ymatebydd sylw hefyd at y potensial ar gyfer datblygiadau pellach mewn polisi a deddfwriaeth yng Nghymru er mwyn galluogi dull gwirioneddol gydweithredol o reoli data iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynhwysiant Digidol

Un thema allweddol mewn nifer o ymatebion oedd cynhwysiant digidol. Mynegodd ymatebwyr bryder, er bod gofyniad clir i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal gyda thechnolegau digidol mewn golwg, bod nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dal yn methu rhyngweithio â gwasanaethau digidol neu'n anfodlon gwneud hynny.

- Gan dynnu sylw at y 'newid' tuag at apwyntiadau rhithwir yn ystod pandemig COVID-19, awgrymodd un sefydliad a ymatebodd y dylid helpu pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau'n ddigidol.
- Fe wnaeth nifer o ymatebwyr godi materion ynghylch hygyrchedd rhai gwasanaethau digidol ac awgrymu y dylai fod gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru hyrwyddwr ar gyfer anabledd a namau ar y synhwyrau i helpu'r rheini sydd ag anghenion mynediad i ddefnyddio gwasanaethau digidol.

Llywodraethu

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r dull llywodraethu arfaethedig ac yn croesawu'r cyfle i roi Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar yr un lefel â sefydliadau eraill y GIG o ran llywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd.

- Nododd ymatebwyr y byddai'r dull llywodraethu arfaethedig yn gwella amlygrwydd gwasanaethau digidol.
- Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran rhannu'r cyfrifoldeb o fewn y dull gweithredu arfaethedig, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu bod y cynnig yn briodol yn unol â rôl Comisiynydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel comisiynydd a darparwr gwasanaethau digidol, tra oedd eraill yn teimlo bod angen gwahanu pellach rhwng gweithredu gwasanaethau a gorfodi safonau.

**Roedd y sylwadau gweithredol yn cynnwys:**

- Tynnodd un ymatebydd sylw at y cyfrifoldeb sydd gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig o ran hygyrchedd, ac y dylai sicrhau bod dinasyddion ac aelodau staff ag anableddau yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gael mynediad at systemau a gwasanaethau digidol.
- Fe wnaeth nifer o ymatebwyr fynegi pryderon y gallai'r newid 'dynnu sylw' Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru oddi ar gyflawni gofynion gweithredol allweddol ar adeg pan mae angen adnoddau i ganolbwyntio ar bandemig COVID-19.
- Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch yr angen i ganolbwyntio ar annog gwaith trawsffiniol o fewn y fframwaith newydd. Er bod awgrym mai cyrff rhanbarthol priodol oedd orau am arwain gwaith trawsffiniol, roedd mwy o gefnogaeth i ddull cydgysylltiedig cenedlaethol ar gyfer cynlluniau trawsffiniol. Teimlid y byddai dull gweithredu sy'n cael ei arwain yn genedlaethol yn helpu oherwydd yr wybodaeth a'r profiad sydd eisoes yn bodoli ar lefel genedlaethol, ac y byddai

hynny'n helpu i oresgyn amgylchedd a fydd yn dod yn fwyfwy cymhleth a heriol o ran gwaith trawsffiniol. Hefyd, roedd dull gweithredu cenedlaethol i'w weld yn briodol o ystyried bod y cylch gwaith ar gyfer gwaith trawsffiniol yn uchelgeisiol ac yn eang, ac yn ymestyn ar draws llawer o'r gweithgareddau presennol ar wahanol lefelau. Byddai dull gweithredu cenedlaethol yn cynnwys yr oruchwyliaeth angenrheidiol i arwain hyn.

## Casgliad:

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol, gan gwmpasu'r ystod eang o safbwyntiau a barnau a gyflwynwyd gan ymatebwyr. Mae'n amlwg bod awydd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gydweithio'n eang â rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd i lywio'r gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau digidol ledled Cymru.

Mae cefnogaeth glir hefyd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sicrhau bod ganddo'r sail gyfreithiol briodol i brosesu a lledaenu data ar draws iechyd a gofal.

Cododd ymatebwyr bryderon am y broses drawsnewid sy'n effeithio ar gyflawni gweithredol, ac mae hyn yn cael ei fonitro'n barhaus gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod adnoddau'n parhau i fod ar gael i wasanaethau gweithredol yn ystod y cyfnod trawsnewid.

**Sylwadau Clo a'r Camau Nesaf**

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r ddogfen ymgynghori. Mae'r amrywiaeth eang o safbwyntiau a dealltwriaeth a ddarparwyd wedi codi nifer o gwestiynau ac ystyriaethau allweddol a fydd yn sail i ddatblygu swyddogaethau manwl ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac a fydd hefyd yn gallu helpu i lywio datblygiadau pellach mewn strategaeth ddigidol ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

Mae'n amlwg bod mwyafrif llethol yr ymatebion yn cefnogi creu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn croesawu'r swyddogaethau arfaethedig fel cyfle i adeiladu ar ddatblygiadau mewn technoleg ddigidol a thrawsnewid gwasanaethau ar draws iechyd a gofal yng Nghymru.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn weithredol o 1 Ebrill 2021 ymlaen, a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i ddatblygu rhestr o swyddogaethau i'r sefydliad newydd fwrw ymlaen â hwy.